OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 1268 (Cy. 203)

NEWID YN YR HINSAWDD, CYMRU

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllideb Garbon) (Cymru) 2025

2025 No. 1268 (W. 203)

CLIMATE CHANGE, WALES

The Climate Change (Carbon Budget) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Diben Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr o Gymru. Mae adran 29 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 100% yn is na gwaelodlin y ffigurau allyriadau.

Mae adran 31(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod cyllidebau carbon ar gyfer pob cyfnod cyllidebol o 5 mlynedd rhwng 2016 a 2050. Mae adran 32(1)(b) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyllideb garbon a osodir gan Weinidogion Cymru gael ei gosod ar lefel sy'n gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050 a'r targed allyriadau interim ar gyfer unrhyw flwyddyn darged interim sydd o fewn y cyfnod cyllidebol hwnnw neu'n dod ar ei ôl.

Mae rheoliad 2 yn cynnwys darpariaethau dehongli.

Mae rheoliad 3 yn gosod y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cyllidebol 2031-2035 fel ei bod wedi ei chyfyngu i gyfartaledd o 73% yn is na'r waelodlin.

Yn unol ag adran 32(3) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wrth ddrafftio'r Rheoliadau hyn wedi rhoi sylw i'r ffactorau a restrir yn adran 32(3).

Yn unol ag adran 49 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi cael cyngor gan y corff cynghori, ac wedi ystyried y cyngor hwnnw, cyn gosod rheoliadau drafft.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The purpose of Part 2 of the Environment (Wales) Act 2016 ("the Act") is to require the Welsh Ministers to meet targets for reducing net Welsh emissions of greenhouse gases from Wales. Section 29 of the Act places a duty upon the Welsh Ministers to ensure that net Welsh emissions for the year 2050 are at least 100% lower than the baseline emissions figures.

Section 31(1) of the Act requires that the Welsh Ministers set carbon budgets for each 5-year budgetary period between 2016 and 2050. Section 32(1)(b) of the Act requires that each carbon budget set by the Welsh Ministers is set at a level consistent with meeting the 2050 emissions target and the interim emissions target for any interim target year that falls within or after that budgetary period.

Regulation 2 contains interpretation provisions.

Regulation 3 sets the carbon budget for the budgetary period 2031-2035 so it is limited to an average of 73% lower than the baseline.

In accordance with section 32(3) of the Act, the Welsh Ministers in drafting these Regulations have had regard to the factors listed in section 32(3).

In accordance with section 49 of the Act, the Welsh Ministers have obtained and taken into account the advice of the advisory body before laying draft regulations.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 1268 (Cy. 203)

NEWID YN YR HINSAWDD, CYMRU

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllideb Garbon) (Cymru) 2025

Gwnaed	*3 Rhagfyr 2025*
Yn dod i rym	*5 Rhagfyr 2025*

Yn unol ag adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**1**) ("y Ddeddf"), gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

Cyn i'r drafft gael ei osod, roedd Gweinidogion Cymru—

(a) wedi eu bodloni bod y gyllideb garbon wedi ei gosod ar lefel sy'n gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050 a'r targed allyriadau interim ar gyfer unrhyw flwyddyn darged interim sydd o fewn y cyfnod cyllidebol neu'n dod ar ei ôl, yn unol ag adran 32(1)(b) o'r Ddeddf,

(b) wedi rhoi sylw i'r materion a restrir yn adran 32(3) o'r Ddeddf, ac

(c) wedi cael cyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd(**3**), ac wedi ystyried y cyngor a gafwyd, yn unol ag adran 49(1) o'r Ddeddf.

Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd wedi argymell gosod y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cyllidebol 2031-2035.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 31(1) o'r Ddeddf, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 2016 dccc 3.
(**2**) Mae'r cyfeiriad yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yw'r corff cynghori perthnasol i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 44(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 No. 1268 (W. 203)

CLIMATE CHANGE, WALES

The Climate Change (Carbon Budget) (Wales) Regulations 2025

Made	*3 December 2025*
Coming into force	*5 December 2025*

In accordance with section 48(3) of the Environment (Wales) Act 2016(**1**) ("the Act"), a draft of this instrument was laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru(**2**).

Before the draft was laid, the Welsh Ministers—

(a) satisfied themselves that the carbon budget is set at a level consistent with meeting the 2050 emissions target and the interim emissions target for any interim target year that falls within or after the budgetary period, in accordance with section 32(1)(b) of the Act,

(b) had regard to the matters listed in section 32(3) of the Act, and

(c) obtained and took into account the advice of the Committee on Climate Change(**3**), in accordance with section 49(1) of the Act.

The Committee on Climate Change has recommended that the carbon budget for the 2031-2035 budgetary period be set.

Accordingly, the Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 31(1) of the Act, make the following Regulations.

(**1**) 2016 anaw 3.
(**2**) The reference in the Environment (Wales) Act 2016 to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru, by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
(**3**) The Committee on Climate Change is the relevant advisory body to the Welsh Ministers by virtue of section 44(3) of the Environment (Wales) Act 2016.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllideb Garbon) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Rhagfyr 2025.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, mae i "cyllideb garbon", "cyfnod cyllidebol" a "gwaelodlin" yr un ystyr ag yn Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (gweler adrannau 31(1), 31(3) a 38 o'r Ddeddf honno).

Y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cyllidebol 2031 i 2035

3. Mae'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cyllidebol 2031-2035 wedi ei chyfyngu i gyfartaledd o 73% yn is na'r waelodlin.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Climate Change (Carbon Budget) (Wales) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 5 December 2025.

Interpretation

2. In these Regulations, "carbon budget", "budgetary period" and "baseline" have the same meaning as in Part 2 of the Environment (Wales) Act 2016 (see sections 31(1), 31(3) and 38 of that Act).

Carbon budget for the 2031 to 2035 budgetary period

3. The carbon budget for the 2031-2035 budgetary period is limited to an average of 73% lower than the baseline.

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
3 Rhagfyr 2025

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
3 December 2025

©ⓑHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39747-5

£6.40

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/1268

9 780348 397475